

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangoed a Phenmon.
A gynhaliwyd ar Nos Fercher Ebrill 9fed 2014
am 7 - 0 o'r gloch.**

1. **Croeso** - Agorwyd y Cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng. Megan Roberts, gan estyn croeso cynnes i bawb oedd yn bresennol.
Presennol - Cynghorwyr Megan Roberts (Cadeirydd), Emlyn Jones, Mary Ellis, Dafydd Roberts, Ann Roberts, Gareth Moore (Is - Gadeirydd), Lewis Davies, Ruth Roberts, Delyth Jones a Geraint Parry (Clerc).
2. **Ymddiheuriadau:-**
Alwyn Rowlands, Carwyn Jones, Alan Owen a Wyn Hughes.
3. **Cofnodion**
Derbyniwyd Cofnodion y Cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 12fed o Fawrth, fel rhai cywir gan Cyng. R Roberts ac eiliwyd gan Cyng. E Jones.
Bawb i anfon ymlaen unrhyw faterion sydd angen ei godi, wythnos o flaen y cyfarfod nesaf i'r Clerc.
4. **Materion yn Codi o'r Cofnodion**
 - 4.1 **Palmant Tros yr Afon** - gwaith wedi ei gwblhau.
 - 4.2 **Sgwâr Tawelfan** - gwaith chwynnu wedi cael ei gynnal. Cyng. L Davies i drafod y plannu gydag Ysgol Gynradd. Mae ansicrwydd ynghylch materion CRB. Cyng. D Jones yn awgrymu cael mewnbwn y plant i wneud y gwaith.
Wedi bod yn llwyddiannus gyda Grant Cymunedol i osod meinciau yn y Sgwâr. Angen cwblhau'r gwaith hwn erbyn diwedd mis Mehefin.
 - 4.3 **Wefan y Cyngor Cymuned** - Cyng. E Jones wedi anfon linc Castell Aberlleiniog. Awgrymwyd gosod linciau i wefan Canolfan Hamdden Biwmares, Canolfan Iechyd, Cymuned Llangoed (Facebook). Cyng. G Moore awgrymu a ddylid edrych ar gwmnïau lleol i hysbysebu ar y wefan.
 - 4.4 **Niwed i Giatiau'r Eglwys** - Giatiau wedi cael eu hatgyweirio ai gosod yn ôl. Gydag un giât, nid yw'r bollt yn cyd-fynd gyda'r twll yn y maes parcio.
 - 4.5 **Arwydd wedi troi ger mynedfa i'r Warchodfa** - Eglurodd y Clerc oherwydd y gost uchel mae'r Cyngor Sir yn mynd i ddod o amgylch yr ardal i atgyweirio'r arwyddion.
 - 4.6 **Giât ar lwybr troed Gwelfor** - Cyng. L Davies wedi trafod y mater gyda swyddogion Ardal o Harddwch y Cyngor Sir.
 - 4.7 **Nenfwd y Neuadd** - gwaith wedi ei gwblhau. Clerc i anfon llythyr o ddiolch i bwyllgor y Neuadd.
 - 4.8 **Torri Coed 2 Pen y Berth** - gwaith wedi ei gwblhau ar y tir comin.
 - 4.9 **Carthffosiaeth** - Cyfoeth Naturiol Cymru a Dwr Cymru yn monitro'r sefyllfa. Disgwyl llwydd o gerrig i faes parcio'r Neuadd.
 - 5.0 **Cymdeithas Tai Gogledd Cymru** - dim newyddion ymhellach.
 - 5.1 **Llwybr concrit Tawelfan** - Cyng. L Davies yn trafod y mater gyda'r Adran Tai, Cyngor Sir.
 - 5.1 **Clawdd ardd Cae Person** - Cyng. L Davies - ydi hwn yn fater sifil? Nid oes llawer y gall y Cyngor Cymuned wneud ar fater yma.
5. **Datgan Diddordeb**
 - Cyng. L Davies yn datgan diddordeb ar gais 35C183E/LB
6. **Sylwadau Ceisiadau Cynllunio**
 - Cais 35C183E/LB - caniatad adeilad rhestredig ar gyfer ail osod ffenestri yn 1 Menai Lighthouse Cottage, Penmon - dim sylwad.

Er Gwybodaeth

 - 35C315 cais llawn ar gyfer newid defnydd tir i fod yn rhan o'r ardd ynghyd a chreu man parcio yn Bodfeurig, Llangoed - wedi ei ganiatau.
 - 35C313 cais llawn ar gyfer dymchwel, addasu ac ehangu ynghyd a chreu mynedfa newydd i geir yn Carreg Wen, Penmon - wedi ei ganiatau.
 - 35C312 cais llawn ar gyfer dymchwel rhan o'r annedd presennol, ynghyd ac addasu ac ehangu yn Hafod, Llangoed - wedi ei ganiatau.
7. **Adroddiad gan y Cynghorwyr Lleol**
 - 7.1 **Wastraff tŷ cefn i Bryn Paun** - wedi cysylltu ar Cyngor Sir. Hefyd, bin wastraff yn mynd i gael ei osod ger yr Ysgol.

- 7.2 Parth Galw Oer - Cyngor Sir yn mynd i edrych ar ardal Llangoed. Fydd yn bwysig cael ymateb o 60% i'r arolwg.
- 7.3 Canmoliaeth i Delyth am y gwaith caled mae wedi gwneud i gael adnoddau i blant y pentre'.
- 7.4 Lôn Lleiniog yn mynd i gael eu hail wynebu. Peiriannydd wedi bod yn edrych ar y wal, ac maent yn bosib bydd cyfrifoldeb a'r Cyngor Cymuned. Y broblem oedd, y dylai'r gwaith ar y ffordd wedi ei gwblhau cyn y cynllunio ar gyfer y fferm pysgod ei roi.
- 7.5 Mae gan Ysgol Langoed arddangosfa gan 5 neu 6 artistiaid Ynys Môn yn Gwesty'r Bulkeley Biwmares ar 10/04/14, i godi arian at yr Ysgol.
- 7.6 Swyddog Priffyrdd wedi ymweld i edrych ar y mynediad cul sydd i Coedwig Terrace sydd wedi cael ei daro gan gerbyd mawr. Hefyd wedi ymweld ar wal ar dop allt Pwll Crwn. Nid yw'r tir wedi ei chofrestru gan y swyddfa cofrestru tir. Os ydi'r Cyngor Cymuned yn cofrestru'r tir yma, bosib fydd yn gyfrifol o atgyweirio'r wal. Nid oes gan y Cyngor Sir cyllid i wella'r sefyllfa, oni bai oes grant ar gael.
- 7.7 Mae pryder lleol am fod adran AHNE yn rhan o adran cynllunio o fewn y Cyngor Sir, gan fod hyn yn gwneud pethau yn anodd gwneud dyfarniad teg ar geisiadau cynllunio. Prif Weithredwr yn edrych i mewn i'r mater.

8. Neuadd y Pentre'

Cyng G Moore yn adrodd bod gwaith ar y nenfwd a ramp wrth y drws cefn yn gyflawn. Parti wedi ei drefnu am y 26/05/14. Clerc yn adrodd fod y Cyngor Sir yn ceisio ymgynghori a Derek er mwyn trefnu etholiad mis Mai.

9. Prosiect Afon Lleiniog

Cyfarfod 8/04/14 – Ruth, Emlyn ar Clerc, wedi cael ei gohirio.

- Cyng G Moore - mae angen gwaith cynnal a chadw ar y llwybr newydd, mae'r gwyneb yn dirywio bob gaeaf. Mae hwn yn fater i Menter Môn, ond yn anffodus nid oes cynrychiolydd ar gael o'r uned yma. Hefyd mae gwyneb y llwybr ger y ffordd yn Lleiniog yn dirywio.
- Cyng. M Roberts – oes cyfrifoldeb arnom i gynnal y llwybrau ar dir Menter Môn? Byddai hyn yn cael effaith enfawr ar y nifer o bobl sy'n defnyddio'r llwybrau.
- Llwybr yn y warchodfa ger y Wern yn fudr iawn.
- Lôn Ddŵr - a yw'n bosib cael gwirfoddolwyr/"Silver Slashers" i wneud cynnal a chadw ar y llwybr? Clerc i gysylltu â Menter Môn.

10. Bws Ieuenctid ayyb

- Cyng. D Jones, M Ellis, Aoberts ac R Roberts wedi ymweld â maes chwarae yn Talwrn i weld Play Pod, fel yr un sydd yn dod i Langoed ar 11/04 ynghyd a tua £500 o deganau. Mae gwerth tua £2000 i gyd. Cyng G Moore - fydd rhaid bod yn ofalus gyda'r drysau rhag ofn eu bod yn cau ar y plant. Fydd angen creu llawr caled fel y gall gosod y Pod ar lawr caled wrth faes chwarae plant. Clerc i gynnwys ar yr yswiriant.
- Oes ddigon o wybodaeth ar yr arwydd yn y maes chwarae? Clerc i gysylltu â ROSPA.
- Posibilrwydd drefnu digwyddiad o gwmpas mis Mai, lle mae grant ar gael oddiwrth "Comic Relief"
- Clerc yn trafod manylion cae cymunedol. Cae wedi ei drosglwyddo i'r Cyngor Cymuned yn 1978.
- Cyng G Moore - ydi'n bosib rhoi croesfan ger mynedfa'r maes chwarae? Cyng. L Davies - mae mwy o arwyddion yn mynd i gael ei gosod ar y ffordd.
- Mae ffrydiau grant eraill ar gael, ond oherwydd amodau, ni all y Cyngor Cymuned cymhwyso eleni. Ond efallai bydd sefydliadau eraill yn cael trio.
- Byddai'n bosibl cael rhywun i ddechrau Clwb Ieuenctid? Mae hyn yn fater i'r Cyngor Sir.
- Cyfarfod nesaf o'r Grŵp Cymunedol ar 23/04/14 yn Neuadd y Pentre' am 7 o'r gloch. I godi ar yr agenda mis nesaf

11. Cyfrifon

Taliadau, penderfynwyd talu:-

Campbell Grindlay, trwsio giât yr Eglwys - £456.00

Martin Toolan, torri coed Pen y Berth - £350.00

Cyflog y Clerc, Ionawr – Mawrth 14 - £438.55

Cyflog y Clerc, prosiect Lleiniog 2013/14 - £108.9

Incwm:

Ad-daliad, cynnal a chadw llwybrau - £913.10

12. Gohebiaeth

e-bost Andrew Coulter – Parth Galw Oer
 e-bost – Cyngor Sir, llwybr arfordirol
 e-bost – Adeiladau cymunedau Seiriol
 e-bost – Cyngor Sir, cyfarfod 10/04/14, Cyfraniadau budd Cymunedol
 Llythyr – Un Llais, Cyfarfod 27/3/14
 Llythyr – Cyngor Sir, Gofal Cymdeithasol Oedolion
 Llythyr – Cyngor Sir, gronfa gwella Amgylcheddol
 Llythyr – John Roberts, archwiliad mewnol, May 9fed
 Llythyr – Hacker Young, Awdit 2013/14. 31/05/14
 Llythyr – Grantiau i Fudiadau Gwirfoddol

13. UFA:

- 13.1 Gyflwr gwael ar y lôn o Glanrafon i Penmarian. Hefyd, tyllau ar y ffordd ym Mhenmon, a ger Gamar.
- 13.2 Cyng D Roberts – clawdd yn tyfu dros y ffordd ar dop allt Glanrafon, ger Llwyn Onn. Cyng. L Davies i drafod y mater gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.
- 13.3 Wedi derbyn cwyn oddi wrth John Woods ynghlyn a chynnal a chadw llwybr arfordirol ger Fferm Marian a hefyd y trac ger Gwelfor. Clerc wedi cysylltu ar Cyngor Sir, lle maent wedi bod ar y llwybr o Penmarian Mawr i Cae Coch, ac yn ystyried ei fod yn ddiogel. Penderfynwyd trafod ymhellach yn cyfarfod nesaf.
- 13.4 Penderfyniad wedi ei wneud i gau Ysgol Llanddona, mis Medi.
- 13.5 Cyng. R Roberts yn gynnig bod ni yn llongyfarch Gareth trwy bleidlais y siop pentref orau yng Nghymru, yn y gwobrau gynghrair cefn gwlad. Pawb yn gytûn. Fydd nawr yn mynd ymlaen i Lundain.
- 13.5 Penderfynwyd trafod Apeliadau yn cyfarfod nesaf.
- 13.6 Cyngor Sir yn ceisio trefnu cyfarfod "Adeiladu Cymunedau Ward Seiriol" gan i ofyn i'r Gadeirydd ar Is-Gadeirydd ymuno, wythnos yn cychwyn 28/04 a 12/05, yn Canolfan Iorwerth Rowlands.
- 13.7 Cyng. E Jones – peipen Afon Lleiniog wedi blocio ger y lôn concrit.
- 13.8 Clerc - angen cwblhau gwaith awdit 2013/14 erbyn 9/05 yn fewnol, a 31/05/14 yn allanol.

14. Dyddiad cyfarfod nesaf:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniad. Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.05 o'r gloch. Cyfarfod nesaf 14/05/14.

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad